



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

RHEOLAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU (CYFANSODDIAD PANELI)

Ebrill 2024

Mae'r broses o reoleiddio cofrestru ac addaswydd i ymarfer y gweithlu gofal cymdeithasol gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei rheoli gan dri math o ddogfennau cyfreithiol, sydd **oll** yn berthnasol i gofrestru ac addaswydd i ymarfer unigolion cofrestredig:

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf);**
- **Rheoliadau Llywodraeth Cymru;**
- **Cyfres Gofal Cymdeithasol Cymru o Reolau Cofrestru a Rheolau Addaswydd i Ymarfer.**

Nid yw cynnwys y Ddeddf na'r Rheoliadau wedi'i nodi yn y Rheolau hyn. Dylech felly ddarllen cynnwys y Ddeddf a'r Rheoliadau ar y cyd â'r Rheolau i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gweithdrefnau cofrestru ac addaswydd i ymarfer.

Mae fersiwn (ddiwygiedig) ddiweddaraf y Ddeddf i'w gweld yn:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents/enacted>

Rhestrir y Rheoliadau isod a gellir eu gweld yn - <http://www.legislation.gov.uk/wsi>

- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2023

Mae Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael yn:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/sut-mae-gwrandawiadaun-gweithio>
<https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/pam-rydym-yn-cofrestru>

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 73(2) a (4), a 174(1),(6),(7),(8) a (9) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau eraill sy'n galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru yn hynny o beth, ac yn unol ag adran 75(3) y Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Rheolau canlynol:

TREFNIANT Y RHEOLAU

RHAN I

CYFLWYNIAD

1.	Cyfeirio, cychwyn a dirymu	3
2.	Dehongli	3

RHAN II

SEFYDLU PANELI A CHYFANSODDIAD PANELI

3.	Sefydlu paneli	7
4.	Aelodaeth paneli	7
5.	Buddiannau preifat aelodau	7
6.	Dileu aelodau o'r gronfa	7
7.	Cyfansoddiad a chworwm paneli	7
8.	Cynghorydd cyfreithiol	8
9.	Cynghorydd meddygol	9
10.	Clerc	10

RHAN I

CYFLWYNIAD

Cyfeirio, cychwyn a dirymu

1. (1) Ceir cyfeirio at y Rheolau hyn fel Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli) 2024 a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2024.
- (2) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli) 2022 ("Rheolau 2022"), ond bydd Rheolau 2022 yn parhau i fod yn berthnasol o ran unrhyw gais am gofrestru, adnewyddu neu ddychwelyd i'r gofrestr y cychwynwyd gwrandawriad ynglŷn ag ef cyn 1 Ebrill 2024 ond na chwblhawyd erbyn y dyddiad hwnnw.

Dehongli

2. (1) Yn y Rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

Mae "**Deddf**" yn golygu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 fel y'i diwygiwyd;

Mae "**panel rheoli achos**" yn golygu panel o un neu dri aelod, a gynghorir gan gynghorydd cyfreithiol, a sefydlwyd i gynnal cyfarfod rheoli achos o dan Ran II y Rheolau hyn;

Mae "**clerc**" yn golygu'r unigolyn sy'n gyfrifol am drefniadau gweinyddol y gwrandawriad neu'r cyfarfod, fel y'i diffinnir yn y rheolau hyn;

Mae "**gwrandawriad addasrwydd i ymarfer**" yn golygu gwrandawriad gerbron panel addasrwydd i ymarfer mewn achos addasrwydd i ymarfer;

Mae "**panel addasrwydd i ymarfer**" yn golygu panel a sefydlwyd yn unol â rheol 3(1) (c) i wneud penderfyniadau ynglŷn ag addasrwydd unigolion sydd wedi'u cofrestru ar y gofrestr i ymarfer fel gweithwyr gofal cymdeithasol;

Mae "**Rheolau Addasrwydd i Ymarfer**" yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawriadau Addasrwydd i Ymarfer) 2022 neu, os yw'n berthnasol, darpariaeth(au) gyfatebol mewn fersiwn gynharach neu ddiweddarach o'r rheolau hynny;

Mae "**in camera**" yn golygu yn absenoldeb y partïon a'u cynrychiolwyr, a'r cyhoedd;

Mae "**panel gorchmynion interim**" yn golygu panel a sefydlwyd yn unol â rheol 3(1)(b) i atal cofrestrriad unigolyn ar y gofrestr dros dro, neu osod amodau ar ei gofrestrriad, tra'n disgwyl penderfyniad gan banel apeliadau cofrestru neu banel addasrwydd i ymarfer;

Mae “**Rheolau Gorchmynion Interim**” yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gorchmynion Interim) 2022 neu, os yw’n berthnasol, fersiwn gynharach neu ddiweddarach o’r rheolau hynny;

Mae “**unigolyn lleyg**” yn golygu unigolyn nad yw, ac na fu o fewn pum mlynedd o’i benodi i banel:

- (a) yn weithiwr cymdeithasol;
- (b) yn weithiwr gofal cymdeithasol;
- (c) yn ymwneud â hyfforddi, addysgu, penodi, cyflogi, cyflenwi, goruchwyllo, monitro neu gynrychioli gweithwyr gofal cymdeithasol; neu
- (d) yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol;

Mae “**cynghorydd cyfreithiol**” yn golygu unigolyn a chanddo gymhwyster cyffredinol deng mlynedd o fewn ystyr adran 71 Deddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990, sydd â hawl i ymarfer y gyfraith yng Nghymru a Lloegr, a benodwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn unol â rheol 8;

Mae “**cynghorydd meddygol**” yn golygu ymarferydd meddygol, wedi’i gofrestru o dan Ddeddf Meddygol 1983, a benodwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn unol â rheol 9;

Mae “**panel**” yn golygu panel apeliadau cofrestru, panel gorchmynion interim neu banel addasrwydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru a gyfansoddwyd yn unol ag adran 174 y Ddeddf y cyflwynir yr achos oddi tani;

Mae “**cofrestr**” yn golygu’r gofrestr a gedwir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 80 y Ddeddf;

Mae “**unigolyn cofrestredig**” yn golygu unigolyn sydd wedi cofrestru mewn rhan o’r gofrestr, ac mae’n cynnwys unigolyn:

- (a) y byddai ei gofrestriad wedi dar fod o dan adran 87(1) y Ddeddf, heblaw am y ffaith bod is-adran (2) yr adran honno yn berthnasol i’r unigolyn;
- (b) y mae gorchymyn atal dros dro mewn grym mewn perthynas ag ef;
- (c) y mae gorchymyn atal dros dro interim mewn grym mewn perthynas ag ef;
- (ch) y mae gorchymyn atal dros dro amhenodol mewn grym mewn perthynas ag ef;

Mae “**cofrestriad**” yn golygu’r cofnod yn y gofrestr sy’n ymwneud ag unigolyn cofrestredig penodol;

Mae “**panel apeliadau cofrestru**” yn golygu panel a sefydlwyd yn unol â rheol 3(1)(a) i wneud penderfyniadau o dan Ran 4 y Ddeddf mewn perthynas â chofrestriad cychwynnol ar y gofrestr, aros ar y gofrestr ac adfer i’r gofrestr;

Mae “**Rheolau Panel Apeliadau Cofrestru**” yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Panel Apeliadau Cofrestru) 2022 neu, os yw’n berthnasol, darpariaeth(au) gyfatebol fersiwn gynharach neu ddiweddarach o’r rheolau hynny;

Mae “**Gwasanaeth rheoleiddiedig**” yn golygu:

- (a) gwasanaeth cartref gofal;
- (b) gwasanaeth llety diogel;
- (c) gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd;
- (ch) gwasanaeth mabwysiadu;
- (d) gwasanaeth maethu;
- (dd) gwasanaeth lleoli oedolion;
- (e) gwasanaeth eirioli;
- (f) gwasanaeth cymorth cartref;
- (ff) gwasanaeth preswyl ysgol arbennig;

Mae “**Gofal Cymdeithasol Cymru**” yn golygu’r corff corfforaethol a adwaenir fel Gofal Cymdeithasol Cymru ac a adwaenwyd yn flaenorol fel Cyngor Gofal Cymru;

Mae “**gweithiwr gofal cymdeithasol**” yn golygu, at ddibenion y Rheolau hyn, unigolyn sy’n dod o fewn unrhyw un o’r disgrifiadau canlynol o weithiwr gofal cymdeithasol:

- (a) unigolion sy’n rheoli lle y mae gwasanaeth rheoleiddiedig yn cael ei ddarparu ynddo neu ohono; neu
- (b) unigolion sydd, yn ystod eu cyflogaeth gyda darparwr gwasanaeth, neu o dan gontract ar gyfer gwasanaethau, yn darparu gofal a chymorth i unrhyw unigolyn yng Nghymru mewn cysylltiad â –
 - (i) gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu’n bennaf i oedolion,
 - (ii) gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu’n bennaf i blant,
 - (iii) gwasanaeth llety diogel o fewn ystyr paragraff 2 Atodlen 1 y Ddeddf,
 - (iv) gwasanaeth cymorth cartref er mwyn darparu gofal a chymorth i unigolyn y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) Atodlen 1 y Ddeddf, neu
 - (v) wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth;
 - (vi) gwasanaeth preswyl ysgol arbennig.

Mae gan “**weithiwr cymdeithasol**” yr ystyr a bennir gan adran 79(1) (a) y Ddeddf, sef unigolyn sy’n gwneud gwaith cymdeithasol perthnasol yng Nghymru;

Mae “**myfyriwr gwaith cymdeithasol**” yn golygu:

- (a) unigolyn sy’n cymryd rhan mewn cwrs a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 114(1)(a) y Ddeddf;
- (b) unigolyn sy’n cymryd rhan mewn rhaglen gymhwysio gwaith cymdeithasol yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig a gymeradwywyd gan Gyngor Gofal; neu
- (c) unigolyn sy’n cymryd rhan mewn rhaglen gymhwysio gwaith cymdeithasol a gymeradwywyd gan Gyngor Gofal lle y gwneir rhan o’r rhaglen yng Nghymru, sy’n dymuno cofrestru â’r rhan o’r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol.

(2) Yn y Rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

- (a) mae geiriau unigol yn cynnwys y lluosog, ac mae geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol;
- (b) mae unrhyw gyfeiriad at reol neu ran wedi’i rhifo yn gyfeiriad at y rheol neu’r rhan sydd â’r rhif hwnnw yn y rheolau hyn, yn ôl y digwydd;
- (c) mae unrhyw gyfeiriad at baragraff wedi’i rifo mewn rheol neu ran, yn gyfeiriad at y paragraff sydd â’r rhif hwnnw yn y rheol neu’r rhan honno;
- (ch) mae unrhyw gyfeiriad at is-baragraff wedi’i rifo mewn paragraff mewn rheol neu ran, yn gyfeiriad at yr is-baragraff sydd â’r rhif hwnnw yn y rheol neu’r rhan honno.

RHAN II

SEFYDLU PANELI A CHYFANSODDIAD PANELI

Sefydlu paneli

3. (1) Bydd y paneli canlynol yn cael eu sefydlu:
 - (a) paneli apeliadau cofrestru;
 - (b) paneli gorchmynion interim;
 - (c) paneli addaswydd i ymarfer.

Aelodaeth paneli

4. (1) Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal cronfa o aelodau y bydd aelodau'r panel apeliadau cofrestru, y panel gorchmynion interim, y panel addaswydd i ymarfer a'r panel rheoli achosion ar gyfer achos penodol yn cael eu penodi ohoni.
- (2) Bydd aelodau a chadeiryddion paneli yn cael eu penodi am gyfnod nad yw'n fwy na phedair blynedd.
- (3) Ceir ailbenodi aelodau a chadeiryddion paneli am gyfnod arall nad yw'n fwy na phedair blynedd, a chaiff y cyfnod hwnnw ddechrau ar ddiwedd y cyfnod pedair blynedd cychwynol neu ar ddyddiad hwyrach, fel a bennir gan Ofal Cymdeithasol Cymru.
- (4) Ni chaiff aelodau a chadeiryddion paneli a ailbenodwyd yn unol â pharagraff (3) y rheol hon gael eu hailbenodi ymhellach oni bai bod Gofal Cymdeithasol Cymru'n pennu bod rhesymau eithriadol dros wneud hynny.

Buddiannau preifat aelodau

5. (1) Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn sefydlu ac yn cynnal cofrestr o fuddiannau preifat aelodau paneli, ac yn sicrhau bod y gofrestr honno ar gael yn gyhoeddus.

Dileu aelodau o'r gronfa

6. (1) Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn dileu aelod o banel o'r gronfa aelodau:
 - (a) y mae ei gyfnod yn y swydd wedi dod i ben ac nad yw'n cael ei ailbenodi am gyfnod arall neu gyfnodau eraill;
 - (b) sy'n ymddiswyddo'n ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru.
- (2) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru atal dros dro a/neu ddileu aelod o banel o'r gronfa aelodau ar sail camymddwyn difrifol.

Cyfansoddiad a chworwm paneli

7. (1) Caiff panel rheoli achos a gynullir i gynnal cyfarfod rheoli achos o dan:
 - (a) reol 6(1) y rheolau gorchmynion interim,
 - (b) rheol 6(1) y rheolau addasrwydd i ymarfer, neu
 - (c) reol 7(1) rheolau'r panel apeliadau cofrestru, gynnwys un neu dri aelod.
- (2) Ac eithrio fel y darperir ym mharagraff (1), bydd panel yn eistedd gyda naill ai pump neu dri aelod, gan gynnwys aelod a benodwyd i gadeirio'r panel, a bydd darpariaethau paragraffau (3) i (6) yn berthnasol.
- (3) Bydd gan bob panel gworwm o dri.
- (4) Bydd pob panel yn cynnwys o leiaf un unigolyn lleyg fel aelod.
- (5) Bydd y Cadeirydd yn unigolyn lleyg.
- (6) Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn sicrhau bod panel yn cynnwys aelod sydd â phrofiad neu ddealltwriaeth o waith cymdeithasol neu'r maes gwaith gofal cymdeithasol a arferir gan yr ymgeisydd, yr apelydd neu'r unigolyn cofrestredig y mae ei achos yn cael ei ystyried, oni bai bod yr ymgeisydd, yr apelydd neu'r unigolyn cofrestredig wedi'i gofrestru dim ond ar y sail ei fod yn dilyn cwrs mewn gwaith cymdeithasol perthnasol a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 114(1)(a) y Ddeddf.
- (7) Ni chaiff unrhyw aelod o banel apeliadau cofrestru eistedd felly i ystyried achos ymgeisydd, apelydd neu unigolyn cofrestredig, os yw'r aelod hwnnw:
 - (a) yn ymwybodol o ffeithiau'r achos, cyn i'r mater gael ei ystyried gan y panel; neu
 - (b) wedi eistedd ar banel a benderfynodd ar achos yn ymwneud â'r ymgeisydd, yr apelydd neu'r unigolyn cofrestredig yn flaenorol.
- (8) Ni chaiff unrhyw aelod o banel gorchmynion interim eistedd felly i ystyried achos unigolyn cofrestredig, os yw'r aelod hwnnw wedi bod yn aelod o banel apeliadau cofrestru neu banel addasrwydd i ymarfer yn flaenorol a oedd yn ystyried achos yn ymwneud â'r unigolyn cofrestredig.
- (9) Ni chaiff unrhyw aelod o banel addasrwydd i ymarfer eistedd felly i wrando ar achos unigolyn cofrestredig, os yw'r aelod hwnnw wedi bod yn aelod o banel gorchmynion interim neu banel apeliadau cofrestru yn flaenorol a oedd yn ystyried achos yn ymwneud â'r unigolyn cofrestredig.
- (10) Cyn ystyried achos, bydd aelodau panel yn datgan unrhyw fuddiannau preifat y gallai eraill, yn rhesymol, gredu y gallent gael unrhyw ddylanwad ar arfer swyddogaethau'r panel.

Cynghorydd cyfreithiol

8. (1) Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn penodi cynghorydd cyfreithiol a fydd yn bresennol pan fydd pob panel yn eistedd.
- (2) Bydd y cynghorydd cyfreithiol hefyd yn bresennol yn ystod trafodaethau pob panel.
- (3) Rôl y cynghorydd cyfreithiol fydd cynghori pob panel ar gwestiynau yn ymwneud â'r gyfraith, a sicrhau bod yr achos gerbron pob panel yn cael ei gynnal yn deg. I'r perwyl hwn, bydd y cynghorydd cyfreithiol yn rhoi gwybod i banel ar unwaith os yw o'r farn bod afreoleidd-dra wrth gynnal achos gerbron y panel hwnnw.
- (4) Bydd unrhyw gyngor a roddwyd gan y cynghorydd cyfreithiol *in camera* yn cael ei ailadrodd wedi hynny gerbron y partïon.
- (5) Lle y cynhelir gweithrediadau panel yn breifat, bydd y panel hwnnw'n cadw cofnod o unrhyw gyngor a gynigiwyd gan y cynghorydd cyfreithiol.
- (6) Ac eithrio lle mae panel yn penderfynu ar achos heb dystiolaeth neu gyflwyniadau llafar, bydd cyngor y cynghorydd cyfreithiol yn cael ei roi ym mhresenoldeb y partïon.
- (7) Bydd y partïon yn cael cyfle i wneud sylwadau ar gynnwys y cyngor a roddwyd gan y cynghorydd cyfreithiol. Yna, bydd y cynghorydd cyfreithiol yn asesu p'un a oes angen i'r cyngor a gynigiwyd gael ei newid yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed gan y partïon a bydd yn cynghori'r panel yn unol â hynny, ym mhresenoldeb y partïon.
- (8) Ni fydd y cynghorydd cyfreithiol yn cymryd rhan ym mhroses benderfynu panel sy'n ystyried achos, ac ni fydd ganddo hawl i bleidleisio.
- (9) Bydd y cynghorydd cyfreithiol, os caiff ei awdurdodi felly gan Ofal Cymdeithasol Cymru, yn cynnal adolygiad cyn-wrandawriad yn unol â rheol 3 y Rheolau Addaswydd i Ymarfer.

Cynghorydd meddygol

9. (1) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru benodi cynghorydd meddygol i gynghori panel lle y mae'n ymddangos i Ofal Cymdeithasol Cymru y gallai iechyd corfforol neu feddyliol ymgeisydd, apelydd neu unigolyn cofrestredig fod yn amharu ar ei addaswydd i ymarfer.
- (2) Caiff y cynghorydd meddygol fod yn bresennol yn ystod trafodaethau pob panel.
- (3) Rôl y cynghorydd meddygol fydd cynghori'r panel ar unrhyw faterion a allai godi yn ymwneud â ffitrwydd corfforol a meddyliol ymgeisydd, apelydd neu unigolyn cofrestredig i gyflawni'r cyfan neu ran o waith gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol neu fyfyrwr gwaith cymdeithasol (yn ôl y digwydd).

- (4) Bydd unrhyw gyngor a roddwyd gan y cynghorydd meddygol *in camera* yn cael ei ailadrodd wedi hynny gerbron y partïon.
- (5) Ac eithrio lle mae panel yn penderfynu ar achos heb dystiolaeth neu gyflwyniadau llafar, bydd cyngor y cynghorydd meddygol yn cael ei roi ym mhresenoldeb y partïon.
- (6) Bydd y partïon yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y cyngor a roddwyd gan y cynghorydd meddygol. Lle y gwnaed sylwadau ar gynnwys y cyngor a roddwyd gan y cynghorydd meddygol, bydd y cynghorydd meddygol yn ystyried p'un a ddylai'r cyngor gael ei ddiwygio a bydd yn cynghori'r panel yn unol â hynny, ym mhresenoldeb y partïon.
- (7) Ni fydd y cynghorydd meddygol yn cymryd rhan ym mhroses benderfynu panel, ac ni fydd ganddo hawl i bleidleisio.

Clerc

10. (1) Bydd pob panel yn cael ei gynorthwyo gan glerc.
- (2) Bydd y clerc yn gyfrifol am drefniadau gweinyddol y gwrandawriad neu'r cyfarfod ac yn cadw cofnod o benderfyniadau a wnaed gan y panel, a'r rhesymau drostynt.
- (3) Ni fydd y clerc yn cymryd rhan ym mhroses benderfynu panel, ac ni fydd ganddo hawl i bleidleisio.

Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru



Mick Giannasi
Cadeirydd
Gofal Cymdeithasol Cymru

01/02/2024